OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 438 (Cy.54)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*27 Chwefror 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*8 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(**1**), a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 8 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Rheoliadau

2.—(1) Mae Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**4**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), mewnosoder y diffiniadau a ganlyn yn y mannau priodol yn nhrefn yr wyddor—

"mae i "asesiad" yr un ystyr ag a roddir i "assessment" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2013;"

"ystyr "Rheoliadau 2013" ("*the 2013 Regulations*") yw Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliad Annibyniaeth Bersonol) 2013(**5**);".

(3) Yn rheoliad 4 (disgrifiadau o bersonau anabl), ym mharagraff (2)—

(**1**) 1970 p.44.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).
(**3**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**4**) O.S. 2000/1786 (Cy.123).
(**5**) O.S. 2013/377.

(a) ar ddiwedd is-baragraff (d), yn lle'r atalnod llawn rhodder hanner colon;

(b) ar ddiwedd is-baragraff (dd), yn lle'r atalnod llawn rhodder hanner colon; ac

(c) ar ôl is-baragraff (dd) mewnosoder—

"(e) yn derbyn y gydran symudedd o'r taliad annibyniaeth bersonol ar ôl cyflawni asesiad gan sgorio—

(i) o leiaf 12 pwynt mewn perthynas â'r gweithgaredd "cynllunio a dilyn taith"; neu

(ii) o leiaf 8 pwynt mewn perthynas â'r gweithgaredd "symud o gwmpas",

fel y nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Reoliadau 2013".

(4) Yn rheoliad 6 (ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi), ym mharagraff (4)(b)—

(a) yn lle "neu 4(2)(ch)" rhodder ", 4(2)(ch) neu 4(2)(e)"; a

(b) ym mharagraff (ii) yn lle "neu'r atodiad symudedd" rhodder ", yr atodiad symudedd neu'r gydran symudedd o'r taliad annibyniaeth bersonol".

(5) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Darpariaeth drosiannol**

9A.—(1) Pan fo person yn bodloni paragraff (2)—

(a) mae'r person i gael ei drin fel petai'n berson anabl at ddibenion rheoliad 7; a

(b) nid yw rheoliad 9(1)(c) yn gymwys i'r person,

hyd nes bod y cyfnod y rhoddwyd y bathodyn person anabl y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b)(i) ar ei gyfer wedi dod i ben.

(2) Mae person yn bodloni'r paragraff hwn os—

(a) yw hawl y person i'r lwfans byw i'r anabl yn terfynu yn unol â Rheoliadau 2013;

(b) ar y diwrnod olaf y mae gan y person hawl i'r lwfans byw i'r anabl, bod y person—

(i) yn meddu ar fathodyn person anabl sydd wedi ei roi yn unol â'r Rheoliadau hyn, a

(ii) yn berson anabl at ddibenion y Rheoliadau hyn yn rhinwedd bodloni rheoliad 4(1) a (2)(a);

(c) yn effeithiol o'r diwrnod canlynol, nad yw'r person, at ddibenion y Rheoliadau hyn, yn berson anabl mwyach gan nad yw'r person yn bodloni rheoliad 4(1)(a) a (2)(a); ac

(ch) nad yw cyfnod y rhoddwyd y bathodyn a grybwyllwyd yn is-baragraff (b) ar ei gyfer eto wedi dod i ben."

(6) Yn yr Atodlen, Rhan IIIA, paragraff 2—

(a) yn is-baragraff (a) yn lle "baragraffau (b) ac (c)", rhodder "baragraffau (b), (c), (ca) ac (cb).";

(b) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"(ca) pan nad yw person, oherwydd ei anabledd, yn gallu bodloni unrhyw un neu ragor o ofynion—

(i) paragraff (a)(vi)(cc);

(ii) paragraff (a)(vi)(chch); neu

(iii) paragraff (a)(vi)(dd),